# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 2

CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC.

## PENNOD 1

PŴER GWEINIDOGION CYMRU I DDARPARU CYMORTH

### 13 Adroddiad blynyddol ynghylch cymorth a ddarparwyd o dan adran 8

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan yr adran hon (“adroddiad blynyddol”), mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, ynghylch y cymorth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod.

(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) cyfanswm unrhyw gymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd;
- (b) pan fo cymorth wedi ei ddarparu yn ystod y cyfnod drwy gynllun fel a grybwyllir yn adran 8(3)—
  - (i) cyfanswm unrhyw gymorth ariannol a ddarparwyd o dan y cynllun yn ystod y cyfnod;
  - (ii) disgrifiad o unrhyw gymorth arall a ddarparwyd o dan y cynllun yn ystod y cyfnod;
- (c) disgrifiad o unrhyw gymorth ac eithrio cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, ond nid o dan gynllun fel a grybwyllir yn adran 8(3).

(3) Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd—

- (a) cyhoeddi’r adroddiad blynyddol sy’n ymwneud â’r cyfnod adrodd hwnnw, a
- (b) ei osod gerbron Senedd Cymru.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 13. (See end of Document for details)*

(5) Yn yr adran hon, ystyr y "cyfnod adrodd" yw—

(a) yn achos yr adroddiad blynyddol cyntaf, y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 8 yn dod i rym, ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2025;

(b) yn achos adroddiadau blynyddol dilynol, blynyddoedd ariannol olynol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 13.